## Marwolaeth y Groes

Yn ei farwolaeth offrymodd Iesu ei hun yn aberth i'r Tad, er mwyn heddychu ei gyfiawnder unwaith-ac-am-byth ac i'r holl gredinwyr gael eu sancteiddio yn dragwyddol ac i fodlonrwydd tragwyddol gael ei gyflawni. Tywalltodd ei waed sanctaidd yn bris am ein gwaredigaeth, er mwyn i ddicter Duw, a daniwyd yn ein herbyn, gael ei ddiffodd ac i'n drygioni gael ei buro. Y mae dirgelwch yn nhrefn yr iachawdwriaeth.

Dioddefodd o dan Pontius Pilat, barnwr gwlad Jwdea, a'i barnodd yn droseddwr a drwgweithredwr, a thrwy ei gondemniad cawn ninnau ein rhyddhau gerbron gorsedd y Barnwr Mawr.

Croeshoeliwyd ef er mwyn iddo ar y groes (sy'n arwydd o felltith yng nghyfraith Duw) ddioddef y felltith a haeddai ein pechodau ni.

Bu farw er mwyn iddo trwy farwolaeth goncro'r farwolaeth oedd yn bygwth ein llyncu a'n dinistrio ninnau.

***John Calfin (addasiad Euros Wyn Jones)***